**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

20 Hydref 2016

Annwyl Gyfaill

Diolch i chi am gymryd yr amser i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Cawsom 76 o ymatebion, a gellir gweld pob un ohonynt ar ein gwefan. Rydym bellach wedi cael cyfle i ystyried yr holl ymatebion ac wedi cytuno ar yr ymchwiliadau y bwriadwn roi blaenoriaeth iddynt yn ystod y 12-18 mis nesaf, sef:

- Dementia:
- Gofal sylfaenol
- Teimlo'n unig neu'n ynysig
- Y defnydd o feddyginiaeth gwrthseicotig
- Iechyd y cyhoedd a chwaraeon

Nid yw hyn, fodd bynnag, yn cyfyngu ar ein gallu i ymgymryd â gwaith amserol arall fel y bydd yn codi.

Yn ogystal, rydym wedi cytuno ar nifer o amcanion lefel uchel a fydd yn ffurfio fframwaith eang ar gyfer ein gwaith o ran ymchwiliadau yn y Pumed Cynulliad. Mae'r rhain wedi'u hatodi yn Atodiad 1.

Unwaith eto, ar ran Aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniad a'ch gwahodd i barhau i gymryd diddordeb yn ein gwaith.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Atodiad 1

## Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

## Amcanion strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad

Yn ystod y Pumed Cynulliad, byddwn yn archwilio polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar iechyd a lles corfforol a meddyliol ac iechyd a lles y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

Wrth gynnal ein gwaith ymchwilio, byddwn yn ystyried pob menter yng nghyd-destun y canlynol:

- Ei heffaith ar **anghydraddoldebau iechyd**;
- I ba raddau y mae **dulliau ataliol** wedi'u defnyddio i wella iechyd a lles;
- Tystiolaeth o **ymrwymiadau gwariant effeithiol ac effeithlon**;
- Ei heffaith ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol y **gweithlu**;
- Goblygiadau penderfyniad y DU i adael yr UE.

Wrth wneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ystyried y gwerth y gall pob menter ei hychwanegu. Fel rhan o hyn, ar ôl cwblhau'n gwaith polisi a deddfwriaeth, byddwn yn ymgymryd â gwaith dilynol trylwyr i asesu'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu.

Ein nod fydd bod yn llais dibynadwy ac awdurdodol yn ein maes pwnc, sbarduno newid a dylanwadu ar bolisi.

Byddwn yn fforwm ar gyfer trafodaeth gyhoeddus lle bydd modd rhannu gwybodaeth a phrofiad. Byddwn yn ystyried enghreifftiau o arfer gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn annog pawb i'w rhannu'n effeithiol.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan randdeiliaid, y gymdeithas ddinesig a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru yn ein gwaith, a byddwn yn ymgysylltu'n ystyrlon ac yn rheolaidd â nhw er mwyn iddynt fedru cyfrannu at ein gwaith.